# Menter Môn – Grant Cymhorthdal Cyflog

## Gwybodaeth i Gyflogwyr

Isod ceir ychydig o feini prawf a chynghorion allweddol am ein cynllun newydd a elwir yn **WORKPLACED** ac mae'n cynnwys y siroedd: **Ynys Môn, Gwynedd, Sir Ddinbych a Chonwy.**

Menter Môn yw'r cyflwynwyr ar gyfer y cynllun, sy'n cael ei ariannu gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)) trwy grantiau'r UE.

**Y FFEITHIAU:**

1. Yn seiliedig ar gyfradd o £8.91 yr awr a delir i'r cyfranogwr, mae'r cynllun yn rhoi cyfraniad o 50% i fusnesau tuag at gyflog cyfranogwr. (sy'n cyfateb i gymhorthdal o hyd at £1853)

2. Gall y busnes gael person ar y cynllun am gyfnod o naill ai:

**20 awr yr wythnos am 16 wythnos**

**NEU**

**16 awr yr wythnos am 26 wythnos**

3. I fod yn gymwys rhaid i gyfranogwyr y cynllun fod yn 25 oed neu'n hŷn ac **DDIM** mewn cyflogaeth ar hyn o bryd. (Efallai y bydd rhai amodau eraill yn berthnasol yn dibynnu ar amgylchiadau'r unigolyn, y gallwn eu trafod gyda chi'n fwy manwl)

4. **Mae Menter Môn yn talu 100% o'u cyflog yn llawn yn uniongyrchol i'r cyfranogwr bob wythnos, mae'r busnes yn talu'r cyfraniad o 50% i ni trwy daliad banc wythnosol.**

5. Gall y cyflogwr dalu mwy na chyfradd yr awr i'r gweithiwr, a'i gyflogi am fwy o oriau. **Fodd bynnag, bydd unrhyw oriau neu arian ychwanegol yn cael eu talu'n uniongyrchol gan y cyflogwr i'r cyfranogwr drwy drefniant ar wahân ac ni fydd yn rhan o'r cynllun hwn**.

6. Mae grant bach ar gyfer hyfforddiant a dillad gwaith ar gael i bob ymgeisydd, sy'n cynnwys 3 chwrs hyfforddi ar-lein.

7. Nid yw'r cynllun hwn yn berthnasol i unrhyw un sydd eisoes wedi'u cyflogi gan eich busnes, felly cysylltwch â ni **CYN** i chi eu cyflogi.

Sylwch y bydd lleoedd yn cael eu cynnig gyda'r ddealltwriaeth y bydd swydd barhaol i'r person gyda'ch busnes ar ddiwedd y cyfnod lleoliad.

Hefyd, o ran y busnes, nid oes unrhyw waith papur na ffurflenni i'w llenwi, rydym yn ymdrin â'r holl waith papur a materion adnoddau dynol yn uniongyrchol gyda'r cyfranogwr.

**CAMAU NESAF:**

Os ydych chi wedi adnabod person addas i weithio yn eich busnes ac eu bod yn cyd-fynd â'r meini prawf uchod, cysylltwch â ni isod i gael sgwrs bellach a mwy o fanylion.


**Julie Dubberley**

Swyddog Cyflogaeth ar gyfer busnesau

Ffôn - 07917 155 955 / E-bost – Julie@mentermon.com

**Rachel Roberts**

Swyddog Cyflogaeth ar gyfer busnesau

Ffôn – 07881 873 087 / E-bost – Rachel@mentermon.com